OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 1195 (Cy. 147)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8A, Carreg Brân, Pont Britannia, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 30 MYA) 2012

*Gwnaed* *1 Mai 2012*

*Yn dod i rym* *12 Mai 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain i Gaergybi (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mai 2012. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8A, Carreg Brân, Pont Britannia, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 30 MYA) 2012.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20.00 o'r gloch ar 12 Mai 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A55 wrth Gyffordd 8A, Carreg Brân, yn Sir Ynys Môn, a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Mae darpariaethau Gorchymyn y Gefnffordd (Pont Britannia, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 1980**(3)**, i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 2, wedi eu hatal drwy hyn ar yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

6. Mae darpariaethau Gorchymyn y Gefnffordd (yr A5) (Llanfairpwllgwyngyll, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 1983**(4)**, i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 2, wedi eu hatal drwy hyn ar yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 1 Mai 2012.

***G R Morgan***
**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11, i'r Ddeddf honno, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(3)** O.S 1980/1017.

**(4)** O.S. 1983/1772.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

1. Y darn cyfan o’r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 8A, Carreg Brân.

2. Y darn cyfan o’r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8A, Carreg Brân.

## ATODLEN 2

### Terfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 900 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth, i ganolbwynt Cyffordd 8, Cyfnewidfa Ael-y-Bowl.